

**‘Rhyw garchar rhyfeddol yw’r llongau ymfudol’: Profiadau mordeithiol  
mudwyr o Gymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg**

Hoffwn gychwyn trwy ddiolch i MOROL am y fraint a’r anrhydedd arbennig o gael fy ngwahodd i draddodi Darlith Goffa Aled Eames eleni. Fy mwriad i heno yw cynnig cipolwg ar rai o brofiadau ymfudwyr o Gymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg wrth iddynt groesi’r cefnforoedd ar eu ffordd i’w bywydau newydd dros y dŵr.

Hoffwn drafod hefyd ambell i thema y mae’r ffynonellau gwreiddiol yn ei hamlygu am y perthynas rhwng ymfudo, ymfudwyr a’r môr. Er enghraifft, agweddu ymfudwyr a darpar ymfudwyr Cymreig tuag at y môr, a’r effaith posibl a gafodd eu syniadau a’u pryderon am y fordaith ar eu penderfyniadau i ymfudo neu beidio. Mae’r pwnc yn fordaith ymchwil a hwyliwyd eisoes gan Aled Eames ei hun. Ymhlith ei weithiau arloesol ceir un sydd yn berthnasol iawn i’r testun, sef *Y Fordaith Bell*, a gyhoeddwyd yn 1993. Mae’r llyfr yn trafod ac atgynhyrchu dyddiaduron a llythyrau Cymry a hwyliodd i Awstralia yn oes yr aur yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Rwyf i am gymryd y cyfle hwn hefyd i dalu teyrnged i Robin Evans, sylfaenydd a chadeirydd cyntaf MOROL, a fu farw yn gynharach eleni. Fel Aled Eames, ysbrydolodd Robin nifer fawr o bobl mewn sawl maes, ac yn arbennig berthnasol i ni yma heno yw ei gyfraniad at ddatblygu hanes morwrol Cymru, gan gynnwys sefydlu’r ddarlith goffa hon. Roedd gan Robin yntau ddiddordeb mawr yn fy nhestun heno. Yn ei lyfr arloesol *Merched y Môr*, a gyhoeddwyd llynedd, ceir adran bwysig ar agwedd arall ar ein hanes sydd wedi’i hesgeuluso’n ddirfawr, megis profiadau ymfudwyr o ferched. Byddaf yn cyfeirio at ei waith yn nes ymlaen yn y ddarlith.

Heno byddaf yn canolbwyntio gan fwyaf ar Gymry a groesodd Môr Iwerydd yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg er mwyn ymsefydlu yn Unol Daleithiau America, sef cychfan tramor mwyaf poblogaidd y Cymry mudol yn y cyfnod hwn.<sup>1</sup> Fel y gwnaeth Aled Eames yn *Y Fordaith Bell*, byddaf yn rhannol yn gadael i'r werin ymfudwyr ddweud eu storïau yn eu geiriau hwy eu hunain, trwy ddyfynnu'n weddol helaeth o'u hysgrifau.<sup>2</sup> A dyma lais un ohonynt i gychwyn:

'MR GOL. – Yr oeddwn pan yn ymadael ag Aberdar, wedi addaw wrth ein lluosog gyfeillion y buasem yn danfon gair o'm hanes i'r *Gwladgarwr*, fel y gallai pawb ddarllen a barnu drostynt eu hunain. Y mae taith o Liverpool i New York erbyn hyn wedi dod yn beth cyffredin iawn, ragor i'r hyn oedd yn nyddiau ein tadau er hynny y mae gennym yr un faint o filldiroedd i'w trafaelu a'r un peryglon i'w gwynebu ag oedd ganddynt hwy. Gwelliant celfyddyd sydd yn gwneud yr holl wahaniaeth, ein bod ni yn yr oes hon yn medru croesi y Werydd mewn cynifer o ddyddiau ag oedd o wythnosau iddynt hwy. Y mae grym yr agerdd yn ein gyru o'r naill gyfandir i'r llall mewn llinell syth dros y cefnfor mawr, tebyg yr un fel ag y mae yr ager-beiriant yn ein gyru ar hyd y wlad. Ond, Mr Gol., meddwl oeddem am roi ychydig o hanes y daith. Y mae hanes teithiau wedi dyfod yn beth mor cyffredin.<sup>3</sup>

Dyna fel y mae John Davies o Brookfield, Ohio, yn agor ei lythyr a gyhoeddwyd yn *y Gwladgarwr* yn Ebrill 1868, tua phythefnos wedi iddo ymfudo i America ar *The City of Baltimore*, un o longau stêm yr Inman Line. Mae ei eiriau yn crybwyll sawl

---

<sup>1</sup> Gw. *'Raising the Wind': Emigrating from Wales to the USA in the late nineteenth and early twentieth centuries*, Bill Jones (2004)

<sup>2</sup> *Y Fordaith Bell*, Aled Eames (1993), [tud. 7]

<sup>3</sup> *Y Gwladgarwr*, Ebrill 25, 1868. Dyfynnir o'r dogfennau gwreiddiol yn union fel y maent yn ymddangos yn y gwreiddiol.

agwedd rwyf i am fanylu arnynt yn y ddarlith hon. Sylwch yn gyntaf ei fod yn rhyfeddu at y newidiadau mawr a fu ym mhrofiadau teithiol yr ymfudwyr o Gymru i Unol Daleithiau America ym mlynnyddoedd canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Bu gweddnewidiadau pwysig a phellgyrhaeddol yn nhrefniadau ymfudo o Ewrop i America yn y blynnyddoedd hyn. Gwelwyd twf sylweddol yn y ‘busnes ymfudo’, sef gweithgarwch cwmnïau llongau ymfudol ac asiantau ymfudol. Hwyluswyd ymfudo gan ddatblygiadau allweddol megis y newid o hwyliau i ager o ddiwedd y 1850au ymlaen, twf llinellau llongau ager megis Inman, Cunard a Guion, adeiladu rheilffyrdd, a chyflwyno amserlenni a threfniadau tocynnau rheolaidd. Daeth Lerpwl yn ganolbwynt Ewropeaidd i’r llongau ymfudol wrth iddi ddisodli’r drefn flaenorol lle ymadawodd ymfudwyr o borthladdoedd llai o amgylch arfordir Cymru. Yn ystod y ganrif hefyd fe basiwyd cyfres o Ddeddfau Teithwyr (*Passenger Acts*).

Ymddengys mai gor-ddweud oedd y sylwebydd a barnodd yn 1867 fod y daith i America erbyn hyn ‘yn fawr mwy na thaith o Aberteifi neu o’r Drenewydd i Ferthyr Tydfil’.<sup>4</sup> Ond nid oes amheuaeth y bu cryn newid yn natur bywyd ar fwrdd y llong ymfudol mewn canlyniad i’r holl ddatblygiadau hyn. Arweiniodd y gwelliannau mewn rhwydweithiau cludo a chyfathrebu yn y 1860au at leihad arwyddocaol yn y gost o ymfudo. Roedd y daith yn awr yn gyffredinol yn rhatach, cyflymach a mwy diogel a chysurus. Er hynny, fel y pwysleisiodd John Davies, parhau a wnâi’r peryglon (a’r pellteroedd, wrth gwrs). Ac fel y gwelwn yn ddiweddarach, ni ddiflannodd chwaith yr anawsterau a oedd wedi poeni ymfudwyr yn ystod yr oes hwyllo.

---

<sup>4</sup> *Y Drych*, Medi 26, 1867

Sylwch hefyd mai bwriad pennaf ysgrif John Davies oedd rhoi hanes ei daith, a'i fod yn barnu bod y fath weithred wedi dod yn un boblogaidd iawn ymhlith ymfudwyr Cymreig erbyn y 1860au. Yn wir, roedd llythyrau fel hyn yn nodwedd bur gyfarwydd o golofnau'r wasg yng Nghymru yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg.<sup>5</sup> Ymddangosodd cannoedd, efallai miloedd, ohonynt mewn papurau newydd lleol dros Gymru gyfan. Yn 1881 aeth un ymfudwr mor bell â dweud bod 'ysgrifennu hanes teithiau o Gymru i America wedi dyfod yn beth mor gyffredin, fel yr edrycha y werin ar y cyfryw yn ddim gwell na rhyw sothach israddol'. Ond mynnodd yn syth nad oedd hynny'n wir yn achos pawb:

Os ydyw y mwyafrif yn edrych arnynt fel pethau diwerth a dianghenraid, y mae llu cyfeillion yr ysgrifennydd yn edrych arnynt o'r ochr arall gyda gradd o hoffder a mwynhad. Gan hynny, er mwyn y cyfryw, yn bennaf, yr ysgrifennir yr ychydig nodiadau hyn, gan hyderu y byddant yn gyfryw ag a rydd ryw ddrychfeddwl iddynt o'r testyn, yn nghyd ag ychydig gyfarwyddiadau i'r rhai hynny a fwriadant ddyfod i'r wlad hon.<sup>6</sup>

Rhyw gymysgedd lenyddol oedd llythyrau fel hyn yn eu hanfod, felly, gan iddynt gyfuno elfennau hunangofiant, dyddiadur ac arweinlyfr i ddarpar ymfudwyr. Ac ni fu terfyn ar awydd ymfudwyr i lunio ysgrifau o'r math, chwaith, nac ar ddiddordeb darllenwyr newyddiaduron ynddynt. Parhaodd ysgrifau tebyg i ymddangos yn gyson yn y wasg hyd at ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Ceir yr un cyfiawnhad dros

---

<sup>5</sup> Gw. '“Going into Print”: Published Immigrant Letters, Webs of Personal Relations, and the Emergence of the Welsh Public Sphere', Bill Jones, yn *Letters Across Borders: the Epistolary Practices of International Migrants*, Bruce S. Elliott, David A. Gerber, a Suzanne M. Sinke (gol.), (2006); 'Y Gwladgarwr a'i Ohebwy'r', Huw Walters, yn ei *Cynnwrf Canrif: Agweddau ar Ddiwylliant Gwerin* (2004)

<sup>6</sup> *Tarian y Gweithiwr*, Ionawr 21, 1881

ysgrifennu yn y rhan helaeth o'r llythyrau, sef bod hanes teithiau, ac enwedig mordeithiau, yn bwnc diddorol a derbyniol i ddarllenwyr newyddiaduron, a bod yr ysgrifenydd yn cyflawni addewidion a rhoddwyd i berthnasau, cyfeillion neu olygyddion cyn ymadael.

Yn ffodus iawn, fe oroesir cyfoeth ysblennydd o dystiolaeth am brofiadau ymfudwyr Cymreig ar y môr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fel y noda'r hanesydd Marjory Harper, '*the actual process of emigration was always a subject of great human interest, lending itself particularly readily to eyewitness accounts*'.<sup>7</sup> Roedd y pwnc o ddiddordeb dynol mawr hefyd i nifer sylweddol o'r ymfudwyr eu hunain. Bu'r weithred o ymfudo yn sbardun i bobl gyffredin gofnodi eu profiadau hwy eu hun, pobl na fyddai byth wedi troi at bapur pe buasent wedi aros yng Nghymru. Yn achos yr ymfudwyr Cymreig, ceir tystiolaeth o lygad y ffynnon ohonynt ar amryw ffurf, yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac mewn ffynonellau gwreiddiol cyhoeddus a phreifat: mewn erthyglau papurau newydd a chylchgronau, arweinlyfrau i ymfudwyr, areithiau, llythyrau, dyddiaduron, atgofion, hunangofiannau, a hefyd mewn baledi a barddoniaeth, fel y gwelwn maes o law. Roedd disgrifio profiadau ar y môr yn rhan annatod o'r mwyafrif o'r ysgrifau a luniwyd gan ymfudwyr, yn enwedig y rhai a ysgrifennwyd naill ai yn ystod y fordaith neu'n fuan wedi i'r ymfudwyr gyrraedd eu cartrefi newydd.

Rhaid cydnabod mai pwnc eang ac amrywiol iawn yw hwn, ac mae'n amhosibl rhoi cyfiawnhad iddo mewn un ddarlith. Mae'n bwysig nodi, felly, fod gennym sawl astudiaeth wych ar brofiadau mordeithiol ymfudwyr o Gymru, ac o Brydain yn

---

<sup>7</sup> *Adventurers and Exiles: The Great Scottish Exodus*, Marjory Harper (2003), tud. 198

gyffredinol, yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Rwyf eisoes wedi cyfeirio at waith Aled Eames a Robin Evans. Ceir dyfyniadau hir o ysgrifau personol ymfudwyr Cymreig yn *Australians from Wales* (1988) gan Lewis Lloyd, cyfaill agos i Aled Eames, ac yn y llythyrau a gasglwyd ac a olygwyd gan Alan Conway yn ei *The Welsh in America: Letters from the Immigrants* (1961). Mae Susan Wilkinson wedi ysgrifennu astudiaeth fanwl ar brofiadau'r ymfudwyr ar un o'r mordeithiau enwocaf yn hanes y genedl, sef taith arloeswyr y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia ar y *Mimosa* yn 1865. Y tu hwnt i lyfrau sydd yn benodol ar y Cymry, dylid crybwyll llyfr Terry Coleman, *Passage to America* (1992), a nifer o gyfrolau gwerthfawr ar fordeithiau ymfudwyr o Brydain i Awstralia megis Don Charlwood, *The Long Farewell: The Perilous Voyages of Settlers Under Sail in the Great Migrations to Australia* (1981), Robin Haines, *Life and Death in the Age of Sail: The Passage to Australia* (2003), a dau lyfr gan Andrew Hassam a gyhoeddwyd yn 1995, *Sailing to Australia: Shipboard Diaries by Nineteenth-Century British Emigrants* a *No Privacy in Writing: Shipboard Diaries 1852-1879*.

Cyn mynd ymlaen i fanylu ar ambell i agwedd ar y fy mhwnc heno, rhaid imi yn gyntaf nodi rhai pwyntiau sylfaenol. Rhai eithaf amlwg ydynt, efallai, ond maent yn bwysig serch hynny. Yn gyntaf, ni ddylid cyffredinoli'n ormodol ynglŷn â phrofiadau mordeithiol yr ymfudwyr o Gymru. Afraid dweud bod profiadau wedi amrywio o unigolyn i unigolyn, ac o long i long. Roedd natur bywyd beunyddiol yr ymfudwyr ar fwrdd llong yn dibynnu ar nifer o ffactorau eraill a allai fod yn gyfrifol am wahaniaethau sylweddol. Fel y gwelwyd eisoes, bu newidiadau mawr yn nhechnoleg llongau ac yn y fasnach ymfudo yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Felly roedd profiadau'r ymfudwyr yn gallu dibynnu i raddau helaeth ar ba adeg o'r ganrif y

byddent wedi hwylio. Amrywiau profiadau'r ymfudwyr yn ogystal yn ôl eu cyrchfannau. Roedd y ffaith sylfaenol hon yn pennu faint o amser roedd yn rhaid iddynt dreulio ar fwrdd y llong ac yn cael dylanwad mawr ar yr amodau a fyddent yn eu hwynebu. Llongau hwylio oedd yn teyrnasu ar y rhediad i Awstralia tan y 1880au, a gallai ymfudwyr ar 'fordaith bell' dreulio rhwng tri mis a hanner a phum mis ar y môr. Ond er bod y daith i Awstralia lawer yn hirach na'r un i America, nid oedd o reidrwydd yn llai cysurus. I'r gwrthwyneb: un o nodweddion pwysicach y fasnach ymfudo yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd bod amodau ar y llongau i Awstralia yn gyffredinol yn well na'r rheini a hwyliodd yn ôl ac ymlaen ar draws Môr Iwerydd.

Roedd profiadau gwagedd a merched ar fwrdd llong yn aml yn wahanol i rai'r dynion, ac i barau priod o'i gymharu â phobl sengl. Fel y nododd Robin Evans yn *Merched y Môr*: 'er bod merched o ymfudwyr yn hwylio dan yr un amodau â'r dynion i bob pwrpas, roedd profiadau'r merched ar y llong ymfudol yn estyniad o'u rôl a'r disgwyliadau arnynt gartref: coginio, glanhau a chyfrifoldeb dros y plant yn fwyaf penodol.' Aeth ymlaen i godi cwestiwn diddorol a phwysig sydd yn haeddu llawer mwy o ymchwil, sef tybed a oedd profiadau merched o ymfudwyr yn ystod y fordaith 'yn eu gwneud yn wragedd annibynnol'.<sup>8</sup> Yn amlwg byddai helynt yr ymfudwyr, p'un ai'n fenywaidd neu wrywaidd, yn amrywio yn ôl y tywydd yn ystod y fordaith a ffawd y llong. Collodd nifer sylweddol o ymfudwyr eu bywydau ar y môr wrth geisio gwireddu eu breuddwydion am fywyd gwell y tu hwnt i Gymru. Ar y llaw arall, llwyddodd y mwyafrif helaeth o'r ymfudwyr i gyrraedd pen y daith yn ddiogel. Ceir gwahaniaethau mawr rhwng helyntion yr ymfudwyr ffodus hynny oedd â digon o

---

<sup>8</sup> *Merched y Môr: Hanes Merched Cymru a'r Môr, 1750 hyd heddiw*, Robin Evans (2013), tud. 255

arian i sicrhau moethusrwydd cymharol y caban, a'r mwyafrif helaeth a oedd yn gorfod dioddef y *steerage*, a'i goroesi. Amrywiai profiad yn ôl cyfansoddiad corff yr unigolyn, yn enwedig o safbwynt dioddef salwch môr. Fel y cydnabu Daniel Griffiths o Braidwood, Illinois, mewn llythyr yn 1879: 'Lled flinderus yw clefyd y môr; amrywia yn ei barhad ar wahanol bersonau.'<sup>9</sup>

Yn wir, un o hoff destunau trafod y rhan fwyaf o hanesion mordaith ymfudol sydd wedi goroesi yw salwch môr, fel y gellid ei ddisgwyl, efallai, gan mai hwn oedd un o'r problemau cyntaf ac, yn aml, mwyaf anghysurus y gorfu i ymfudwyr ei wynebu. Prin bod y mwyafrif llethol ohonynt wedi dianc ei grafangau. Gellir tybio bod ymfudwyr a oedd yn anghyfarwydd a'r môr wedi ymhyfrydu i ddarlunio golygfeydd byw o effeithiau'r salwch hwn. Dyma ddarn o lythyr Margaret Roberts, a oedd yn wreiddiol o ardal Cynghordy, Llanymddyfri, ac a ymfudodd yn 1862 i Coal Valley, Illinois, lle'r oedd ei gwr, William, eisoes wedi ymsefydlu. Cyhoeddwyd ei llythyr yn y *Gwladgarwr*. Roedd yn anghyffredin i ferched hwylio ar eu pen eu hun yn y cyfnod hwn, ond fe wnaeth Margaret hynny, fel oedd yn briodol efallai yn achos gwraig hynod annibynnol fel hithau, ac i un a ddaeth yn ddiweddarach yn ymgyrchydd brwd ac egniol dros hawliau merched yn America. Er ei bod wedi gadael cyfeillion yn yr orsaf ym Merthyr wrth fynd ar y trê'n ar ei phen ei hun, nid oedd arni ofn:

yr oeddwn yn teimlo yn hynod foddllawn ac hyderus byddai y cyfaill holl bresennol fy amddiffyn rhag pob niwed.

---

<sup>9</sup> *Tarian y Gweithiwr*, Rhagfyr 12, 1879



Hydref 2ail, cychwyn tu a'r llong, ac oddeutu 4 o'r gloch prydawn yr oeddwn ar y llong, ac yn teithio ar y tonau, y gwynt a'r môr yn dawel ...

4ydd yn hynod o arw drwy y nos, y gwynt a'r môr fel pe byddent mewn cynghrair i'n cael i'r gwaelod, a'r teithwyr oll fel meirw yn gorwedd ar draws ei gilydd heb un yn gallu cynorthwyo y llall. O'r fath olwg dorcalonnus! Yr ydwyf yn meddwl pe fuasai un o honom yn dygwyd marw yn y cyfwng hwn, na fuasai un o'r teithwyr yn gallu taflu y corff dros y bwrdd ...

6fed yn hynod o ystormus, a minnau yn parhau yn hynod o sâl; ond er y cyfan yr oeddwn yn teimlo fy hun yn hynod gysurus ac yn cael fy hun yn eithaf boddlon i ewyllys Rheolwr mawr y bydoedd.<sup>10</sup>

Dychwelaf at yr elfen grefyddol, a amlygir yn gryf iawn yn y dyfyniad hwn, yn nes ymlaen.

Fodd bynnag, er mor amrywiol oedd profiadau ar y llong ymfudol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn gallu bod, mae'r hanesion a geir mewn llythyrau preifat a'r rhai a gyhoeddwyd mewn papurau newydd, ac mewn dogfennau personol eraill, yn drawiadol o debyg mewn sawl ffordd bwysig. Mae'r rhan fwyaf yn dilyn confensiynau amlwg. Nodwedd boblogaidd iawn oedd strwythuro'r disgrifiad fesul diwrnod, fel dyddiadur, fel yn achos llythyr Margaret Roberts. Bron yn ddieithriad, mae i'r ysgrifau hyn nifer o elfennau cyffredin o ran cynnwys. Rwyf wedi son am un ohonynt eisoes, sef salwch môr. Ni ddylai'r cyffredinolrwydd hwn fod yn syndod,

---

<sup>10</sup> *Y Gwladgarwr*, Rhagfyr 6, 1862

chwaith. Bu croesi'r môr yn ddigwyddiad torfol a brofwyd gan nifer fawr o ymfudwyr mewn amgylchiadau tebyg. Dylwn gofio hefyd mai i'r rhan helaeth o Gymry gwerinol a gymerodd y cam enfawr hwn i newid eu byd, menter fawr, efallai un ofnadwy, oedd y fordaith, heb son am yr holl broses o ymfudo, pa le bynnag oedd pen y daith. Rhaid oedd iddynt wynebu sefyllfaoedd a oedd yn gwbl newydd iddynt. Roedd hynny'n arbennig o wir yn achos y nifer fawr ohonynt a oedd ar y môr am y tro cyntaf yn eu bywydau, ac efallai na fyddent fyth wedi mynd ar fwrdd llong oni bai bod yn rhaid iddynt er mwyn ymfudo. Prin bod nifer ohonynt hyd yn oed wedi gweld y môr o'r blaen.

Ceir yn yr adroddiadau o lygad y ffynnon, felly, nifer fawr o faterion, pynciau a sylwadau sydd yn ymddangos tro ar ôl tro ac yn nodweddu'r ysgrifau. Gan nad oes digon o amser gennyf i drafod pob un ohonynt, dyma restr, ac nid rhestr gyflawn chwaith. I ddechrau, peryglon mawr, a'r braw a'r profiadau drwg a achoswyd gan stormydd garw a gwyntoedd cryf; defodau newid byd yn ystod y fordaith, a'r pwyslais ar gofnodi genedigaethau, marwolaethau a chladdedigaethau, ac, yn achlysurol, priodasau. Roedd yn rhaid i wragedd oresgyn heriau aruthrol wrth roi genedigaeth i blentyn a magu plant dan yr amodau a oedd yn gyffredin i'r rhan fwyaf o fordeithiau ymfudol. Cynhwysa nifer fawr o ysgrifau ymfudwyr sylwadau ar y driniaeth a gawsant yn ystod y fordaith; rhai ohonynt yn cwyno eu bod wedi cael eu cam-drin gan swyddogion a morwyr y llong, eraill yn canmol y capten a'r criw. Yn y mwyafrif helaeth o'r ysgrifau ceir disgrifiadau o anghysuron ac anghyfleusterau di-ri, ac o amodau byw caled a chyntefig iawn, hyd yn oed wedi dyfodiad y llong stêm. Nodwedd gyffredin iawn yw'r cwynion am y gorlenwi yn y *steerage*, a'r diffyg lle, a bod ymfudwyr yn gorfod byw ar ben ei gilydd. Nid oedd y bwyd a ddarparwyd wrth

flas bawb, chwaith; roedd y mwyafrif yn casáu safon wael y bwyd a'i natur undonedd, diffyg bwyd ffres, a phrinder dŵr pur.

Mae'r dystiolaeth bersonol o lygad y ffynnon yn llawn deunydd sydd ein hatgoffa mai ffenomen hynod ddynol, personol ac unigol oedd ymfudo, beth bynnag ei natur dorfol. Mae'r dogfennau gwreiddiol yn adlewyrchu cymysgedd angerddol o deimladau cadarnhaol a negyddol. Ceir ymfudwyr yn datgelu'r poen a'u hiraeth a deimlent oherwydd eu bod wedi ymadael â Chymru ac wedi gorfod ffarwelio â pherthnasau a chyfeillion. Cawn glywed gobeithion am y dyfodol yn ogystal ag ofnau amdano. Yng nghanol y cwynion ceir hefyd dystiolaeth am fwynhad ymfudwyr yn ystod y fordaith, wrth iddynt ddisgrifio'r pleser a gawsant o ganu cynulleidfaol, dawnsio, chwarae cardiau neu gynnal gwasanaethau crefyddol. Fel y gellid ei ddisgwyl, wrth i'r fordaith ddod i ben mae'r rhan fwyaf o'r gohebwyd yn datgan eu llawenydd a'u rhyddhad at gyrraedd pen eu taith, ond ar yr un pryd maent yn aml yn datgelu eu pryderon am yr hyn oedd o'u blaen.

Nid y lleiaf amlwg o'r nodweddion hyn oll oedd ymdrechion yr ymfudwyr, yn enwedig y rhai oedd ar eu ffordd i'r cyrchfannau pellaf, i ymdopi ag undonedd bywyd yn ystod y fordaith, ac i oresgyn yr her feunyddiol o ddygymod â'r diflastod ac o ddarganfod ffyrdd o ddiddanu eu hunain a threulio amser. Neu yng ngeiriau David Samuel, ysgolfeistr Ysgol y Sir, Aberystwyth, a aeth i America ar y *Majestic* yn y 1880au diweddar: 'Llawer o holi sydd – Pa fodd yr ymdarawsoch ar y bwrdd am wythnos o amser heb ddim o'ch hamgylch ond mor a'r wybren?'<sup>11</sup> Yn ei astudiaeth ddefnyddiol ar lythyrau a gyhoeddwyd yn y *Gwladgarwr*, barna Huw Walters mai

---

<sup>11</sup> Llyfrgell Genedlaethol Cymru, MS 2834B, tud. 4

‘diflas oedd y fordaith yn aml, a dyna’r prif reswm, y mae’n debyg, paham y cofnododd y gohebwyd hyn bob digwyddiad pitw a dibwys yn eu llythyrau’.<sup>12</sup> Pitw a dibwys i’n llygaid ni, efallai, ond yn llawn pwysigrwydd i’r ymfudwyr. Dengys gynnwys rhai o'r llythyrau ddigon o chwilfrydedd ar ran ymfudwyr Cymreig, ac o ryfeddu at bethau newydd, yn enwedig wrth gofnodi gweld morfilod, morloi, a llongau eraill. Dyma James a T. Owens, mewn llythyr a gyhoeddwyd yn 1881:

Medi 28 – ... Gwelsom amryw o bysgod tebyg i foch yr olwg arnynt. Yr oeddynt yn neidio ar ôl y llong yn debyg i gŵn yr hen wlad a'u clustiau i fyny yn syth ...

Medi 30 – Boreu hyfryd, fel canol haf. Ychydig wedi dau yn y prydawn gwelsom whale mawr yn ymddangos. Yr oedd o faintioli anferthol, ac yn chwythu dwfr i fyny fel mwg. Ymddangosai i ni yn fynych yn fwy na’r elephant mwyaf a welsom erioed. Ymddangosai i ni hefyd luaws o rai llai gyda eu gilydd. Amgylchynent yr un mawr fel perchyll yn amgylchynu eu mam – yr hwch. Y Great Eastern yn ein pasio. Y Cymry yn cynnal cyfarfod canu heddyw fel arfer.<sup>13</sup>

Wedi’r cyfan, Cymry mentrus oedd yr ymfudwyr. Mae Huw Walters yn llygad ei le i bwysleisio ‘y mae’n anodd i ni heddiw sylweddoli gymaint o fenter ar ran Cymry cyffredin oedd ymfudo i wlad estron yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg’.<sup>14</sup>

---

<sup>12</sup> ‘Y Gwladgarwr a’i Ohebwyd’, tud. 156

<sup>13</sup> *Tarian y Gweithiwr*, Ionawr, 14 1881

<sup>14</sup> ‘Y Gwladgarwr a’i Ohebwyd’, tud. 152

Er mwyn rhoi cig a gwaed ar y rhestr foel hon o'r prif themâu sydd yn nodweddu'r llythyrau a dogfennau eraill y cofnododd ymfudwyr eu profiadau mordeithiol ynddynt, hoffwn yn awr ddyfynnu o ddau destun; maent yn wahanol o ran ffurf ond yn debyg iawn o ran cynnwys. Yn gyntaf, dyma John Davies, Ohio, eto, yn adrodd ychydig mwy o'i hanes ar *The City of Baltimore* wrth groesi Môr Iwerydd yn 1868. Mae'n werth dyfynnu'n helaeth o'r llythyr hynod ddifyr a dadlennol hwn gan ei fod yn dangos i'r dim pa mor drawiadol, lliwgar a gwerthfawr y mae tystiolaeth bersonol ymfudwyr Cymreig o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn gallu bod. Yn wir, ceir arwydd o hynny yn y ffaith bod Alan Conway wedi cynnwys y llythyr hwn yn ei gasgliad *The Welsh in America* a cheir dyfyniad sylweddol ohono yn astudiaeth Huw Walters ar yr ohebiaeth a ymddangosodd yn y *Gwladgarwr*:

Gadawsom Liverpool ganol dydd Mawrth yr 11eg, 1868, ar fwrdd y 'City of Baltimore', un o agerddlongau yr *Inman Line*. Y mae hon yn llestr haiarn, o wneuthuriad cryf a chadarn, ac yn un o'r rhai budraf ag y bum ar ei bwrdd erioed. Trwy ein bod yn *steerage passengers*, yr oeddwn yn cael mantais i weled pob aflendid ... [G]wael a chyffredin iawn yw y driniaeth a dderbynia y teithiwr ar fwrdd y City of Baltimore os bydd mor anffodus a bod yn *steerage passenger*. Dywedir fod y teithwyr yn rhifo 760, heblaw y dwylaw a'r swyddogion perthynol i'r llestr, a'r cyfryw wedi dyfod o wahanol ranau o Europe – wedi gadael gwlad eu genedigaeth, wedi tori i fyny eu hen gartrefi, wedi gadael ar eu hol eu hanwyl berthynasau a'u lluoedd cyfeillion; y rhan fwyaf ohonynt wedi cefnu am byth â gwlad eu genedigaeth – i chwilio am gartrefi a chyfeillion yn ngwlad y Gorllewin. Nid peth bach yw teimlo ein bod ar y cefnfor mawr a llydan heb un cartref i dynu ato. Rhyw air anwyl i'r dyn

ydyw y gair *cartref*; pa fwyaf y meddylir amdano, anwylach o hyd ydyw i'r teimlad. Ond er hyny, rhyw greaduriaid heb un cartref ydyw y rhan fwyaf o ddigon o'n cyd-deithwyr. Cawsom dri diwrnod garw iawn ar ddechreu ein taith ... Pan mae dyn dan glefyd y mor, y mae megys mewn rhyfel ag ef ei hun, ac y mae yn dibrisio ei hun, ac ni wyr pa fodd i wneud heddwch; pa fath bwyd bynag a gynnigir i'r cylla, y mae yn taflu y cyfan i fyny gyda dirmyg. ...

Achwyniad cyffredin sydd ar yr ymborth, nid am nad oes digon o hono, ond nad yw o'r iawn ryw, ac am nad ydyw yn cael ei ddigoni yn briodol er ateb y chwaeth; ond er yr holl aflerwch, y mae chwant bwyd yn dod a dyn i fwyta y pethaf mwyaf aflan. Y mae y bwydydd oedd yn cael ei ffeiddio a'i hwtio y diwrnodau cyntaf, yn cael ei bwyta gyda blas ac awch cyn diwedd y daith. Y mae dydd Gwener y Pysgod yn cael ei ystyried gan y Cymry fel dydd o ympryd; nid oes un bwyd mor ffaidd ac aflan i ni a'r *codfish* drewllyd, hanner digoni. Bydd y Gwyddelod yn bwyta y cyfryw fel y danteithion melusaf.

Byddai yn dda i bawb gofio mai oddeutu dwy droedfedd a haner o uchder, dwy o led, a chwech o hyd, ydyw yr holl le sydd gan deithiwr ag y gall ei hawlio iddo ei hun; ac yn y lle bychan hwn y mae yn bwyta, byw, cysgu, &c. Pan y bydd yn bryd bwyd, bydd y porthwr yn dod heibio i bob dyn ac yn rhoddi i bawb ei gyfran ar gopa ei *din* yn y gwely. Y mae y debycaf yn y byd i amser *feedio* yn *Show* greaduriaid Wombwells; yr unig wahaniaeth ydyw, fod Wombwells yn rhoi gwahanol fwydydd i'r gwahanol greaduriaid yn ol eu natur a'u rhyw, a'r hinsoddau y perthynant iddynt, ond ar y City of Baltimore, yr un fath fwyd i bawb o bob oedran, pob gwlad, a phob hinsawdd ... Wedi yr holl feio a'r grwgnach ... dyma ni oll trwy diriondeb a gofal ein Tad nefol,

wedi cyrhaedd gwlad y Gorllewin yn eithaf diogel, mewn 13eg a haner o ddyddiau, heb golli yr un bywyd, ond clywsom fod un genedigaeth wedi cymryd lle ar y bwrdd.<sup>15</sup>

Fel y noda Marjory Harper: *'a voyage in an emigrant ship was no luxury cruise ... It was rather a test of endurance that did nothing to build up the passengers' strength for the challenges of the new life that lay ahead. This was especially true in the steerage'*.<sup>16</sup>

Yn ei lyfr *The Long Farewell*, mae Don Charlwood yn awgrymu: *'shipboard existence [became] a life within a life with its own rules and priorities'*.<sup>17</sup> Mae'n dyfynnu barn Geoffrey Blainey yn *The Tyranny of Distance* mai *'For all its discomforts, the ship offered a degree of security: one had few decisions to make... Among steerage passengers life was probably closer to a welfare state than anything known until that time.'* Ceir darlun ychydig yn wahanol i eiriau Blainey gan y bardd y Cymro Cloff (Richard W. Jones), a ymfudodd yn y 1850au o Lyn Tarell, Defynnog i Wisconsin, lle ddaeth yn ffarmwr llwyddiannus yn ddiweddarach. Y mae ei gasgliad *Caban y Cymro*, a gyhoeddwyd ym Merthyr Tydfil yn 1873, yn cynnwys sawl cerdd ar y thema ymfudo, a hefyd arweinlyfr i ddarpar ymfudwyr o Gymru i'r Unol Daleithiau. Mae'n werth nodi wrth fynd heibio bod y 'Y Llong Ymfudol' wedi cael ei dewis fel testun cystadlaethau cyfansoddi mewn ambell i eisteddfod yn America yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Enillodd R. J. Owens (Gwerinog) o Racine, Wisconsin, y wobr gyntaf yn yr eisteddfod yn y lle hwnnw yn 1879 gyda'i gerdd 'Y Llong Ymfudol', a gyhoeddwyd yn ddiweddarach yng nghyfnodolyn yr Annibynwyr yn

---

<sup>15</sup> *Y Gwladgarwr*, Ebrill 25, 1868

<sup>16</sup> *Adventurers and Exiles*, tud. 198

<sup>17</sup> *The Long Farewell*, tud. 213

America, *Y Cenhadwr Americanaidd*, yr un flwyddyn.<sup>18</sup> Ond yn ôl at y Cymro Cloff. Yn ei gerdd ‘Darluniad o Long Ymfudol’ cytunodd y bardd fod croesi Môr Iwerydd wedi dod yn llawer rhwyddach erbyn y 1870au ond mynnodd er hynny fod y llongau ymfudol yn dal yn debyg i ‘garchar rhyfeddol’:

Rhyw garchar rhyfeddol yw’r llongau ymfudol –  
Rhyw giwdawd o gawdel, neu Babel o bobol –  
Rhyw griw o bob graddau mewn masnach a moesau,  
Yn dyrfa ddiderfyn, fel gwenyn mewn cychau;  
Ceir yno ar unwaith bob iaith a chenedlaeth,  
Yn gwaeddi fel gwyddau, heb unrhyw lywodraeth;  
Pob un yn ben, a phob un â’i biniwn –  
Pob un yn fisi, a phob un â’i ffasiwn;  
Rhai’n canu, rhai’n cwyno, rhai’n waeledd, rhai’n wylo;  
Rhai’n rhegu’n rhyfygus, a rhai yn gweddïo  
Ar Mair ac ar Pedr, Sant Padrig a’u pader,  
A phob un ar rywun yn ol ei hen arfer.  
O fewn y gwelyau rhai’n gorwedd yn garnau,  
A lluoedd yn llariaidd ar lawr hyd y lloriau;  
Rhai’n geni, rhai’n marw, rhai’n chwareu, rhai’n chwerw;  
Rhai’n ddifyr, rhai’n ddyfal, rhai’n feddal, rhai’n feddw;  
Rhai’n caru, rhai’n curo, rhai’n dinskyth yn dawnsio,  
A rhai yn ddiarbed fel bleiddiaid yn bloeddio;  
Ac hefyd, nid ’chydig a welir yn chwydu,

---

<sup>18</sup> *Y Cenhadwr Americanaidd*, 40:12 (Rhagfyr 1879), tud. 373-4



A rhywbeth sydd gasach, ond doethach i'm dewi ...<sup>19</sup>

Yn weddill y ddarlith hoffwn gynnig rai sylwadau byr ar ambell i thema arall sef ofn am y môr, yr agwedd grefyddol sydd yn cael ei amlygu yn llawer iawn o'r hanesion, a'r gymysgedd o genhedloedd ac ieithoedd a gafwyd ar y llongau ymfudol. Ond cyn hynny, er mwyn nodi'r gofod a allai fod rhwng y ddelfryd a'r realiti, mae'n ddiddorol cymharu sylwadau'r Cymro Cloff a John Davies, Ohio, ag un enghraifft o'r canllaw am y fordaith oedd ar gael i ymfudwyr mewn ystod eang o ffynonellau cyfoes. Dyma ran o'r adran berthnasol yn *Yr Ymfudwr* gan Y Parch Robert D. Thomas (Iorthryn Gwynedd), a gyhoeddwyd gyntaf yn 1854:

Cyfarwyddiadau i Ymfudwyr 3. Y Fordaith. Os cewch glefyd y môr, na chyffröer chi, oblegyd ni bu neb erioed farw o hono, ond cafodd miloedd les mawr trwyddo. Y mae yn anhyfryd, ac yn eich gwneyd yn sal iawn am beth amser, ond wedi i chi wella o hono, teimlai awydd i fwytta nid yn unig y cig, ond yr esgyrn hefyd ... Byddai yn well i chwi beidio siarad llawer â'r morwyr, ac â'r ymfudwyr dyeithr i chwi. Cedwch eich meddwl i chwi eich hunain; ond ymddygwch yn weddus tuag at bawb ... Gochelwch y rhai anfoesol ac annuwiol; ond ymhyfrydwch yn nghymdeithas y rhai sobr, moesol, a duwiol. Codwch yn foreu; cedwch eich hunain a'ch ystafelloedd, a'ch dillad yn lân; rhodiwch lawer bob dydd ar y *deck* allan; darllenwch lawer ar y Bibl; ac ymddigrifwch mewn canu, a gweddio, a gwrando yr efengyl. Y mae y mordeithiau yn gyffredin yn hyfryd a diogel; ond weithiau digwydda

---

<sup>19</sup> 'Darluniad o Long Ymfudol', Y Cymro Cloff, yn *Caban y Cymro* (1873), tud. 68-9

ystormydd a damweiniau.<sup>20</sup>

Sylwch ar ddatganiad Iorthryn Gwynedd mai rhai diogel oedd y mwyafrif o fordeithiau. Mae ei eiriau yn codi cwestiwn pwysig a diddorol, sef i ba raddau oedd ofn am y môr a'i donnau yn ataliad grymus i bobl oedd yn ystyried ymfudo. Cyn cyrraedd America neu Awstralia, roedd rhaid goroesi'r fordaith yno. Fel y gwelwyd eisoes, bu gweddnewidiadau pellgyrhaeddol yn natur, patrymau ac amodau mordeithio yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a chafodd y rhain effaith enfawr ar y broses o ymfudo ac ar fywyd ar fwrdd llongau ymfudol. Mae'n bosibl mai un canlyniad pwysig arall yw bod y newidiadau hyn wedi darbwyllo unigolion amheugar fod croesi'r moroedd yn llawer mwy diogel nag y buodd - a dyna oedd y gwirionedd, wedi'r cyfan - ac felly bod y newidiadau technolegol ac yn yr isadeiledd wedi erydu un o'r ffactorau mwyaf amlwg oedd yn rhwystro ymfudo. Nid oes amheuaeth fod y môr a mordeithiau wedi peri dychryn dwfn a oedd yn ddigonol gryf ar ei ben ei hun i ddarbwyllo rhai pobl i aros yng Nghymru, pobl a fyddai mwy na thebyg wedi canu'n iach â Chymru oni bai am eu hofnau. Mae ffynonellau gwreiddiol o'r cyfnod yn awgrymu mai braw cyhoeddus oedd hwn i raddau.

Gellir darganfod tystiolaeth am ddylanwad pryderon am y môr a'r fordaith mewn baledi Cymraeg yr oes. Efallai bod rhai ohonoch yn gyfarwydd ag astudiaeth ddiddorol Rhiannon Ifans, *Awstralia, Gwlad yr Aur: Teithiau i Awstralia drwy lygad y baledwyr Cymraeg* (2008). Mae nifer sylweddol o faledi ar y llinellau hyn wedi goroesi, ac fel y gellid ei ddisgwyl, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys disgrifiadau o'r fordaith a'r cefnfor glas a'u helbulon, ac o braw a phryder ar ran

---

<sup>20</sup> R. D. Thomas, *Yr Ymfudwr; Yn Cynnwys Hanes America ac Australia yn nghyda Phob Hyfforddiadau i Ymfudwyr* (1854), tud. 112

ymfudwyr. Dogfennau arbennig eraill a oedd mewn cylchrediad yng Nghymru ym mlynnyddoedd hwyr y ddeunawfed ganrif a gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg yw'r nifer fechan o faledi a cherddi Cymraeg lle mae dau gymeriad yn dadlau o blaid ac yn erbyn ymfudo i America neu Awstralia. Un ohonynt yw *Cân Newydd: Ar Ddull o Ymddiddan rhwng yr Anesmwyth a'r Esmwyth; sef y rhai sydd yn bwriadu cymmeryd eu Taith tu ag America, ag eraill sydd yn boddloni yn ngwlad eu Genedigaeth*, a ysgrifennwyd gan Thomas Francis ac a gyhoeddwyd tua 1800.<sup>21</sup> Enghraifft arall yw *Ymddiddan Rhwng Robert ac Ifan ynghylch ymadael â'u gwlad a myned i'r America* gan Ywain Meirion (Griffith Owen, 1803-68), un o faledwyr mwyaf cynhyrchiol a phoblogaidd yng Nghymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.<sup>22</sup> Mae testunau fel hyn yn aml yn dadlennu canfyddiadau poblogaidd o ystyr ymfudo, ac yn cynnig mewnwelediadau i gynnwys y dadleuon yr oedd darpar ymfudwyr yn sicr o gynnal wrth iddynt benderfynu ai i ymfudo neu beidio. Diddorol felly y ceir ynddynt gyfeiriadau at y môr a mordeithio a bod y prif gymeriadau yn pwysleisio neu'n gwadu peryglon y fordaith. Yn *Ymddiddan* mae Robert yn ceisio dychrynu Ifan trwy ddisgrifio arswyd y fordaith a honni y byddai tywydd drwg yn achosi Ifan i ddifaru milwaith ei fod erioed wedi ymadael â Chymru. Ymateb Ifan yw derbyn y peryglon ond pwysleisio hefyd y byddai bendith Duw, llestr cadarn a morwyr medrus yn sicrhau ei fod yn cyrraedd pen ei daith yn ddiogel. Gellir gweld yr un elfennau yn *Cynadledd Rhwng Un am Fyned i Awstralia, a'r Llall am Aros Gartref* gan Dewi Isan (1857). Yma eto rhestrir y fordaith hir a'i pheryglon ymhlith y rhesymau dros beidio

---

<sup>21</sup> Gw. ' "Very Different Springs of Uneasiness" ', Hywel M. Davies, *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 15:3 (Mehefin 1991), tud. 389-91; *Calvinists Incorporated: Welsh Immigrants in Ohio's Industrial Frontier*, Anne Kelly Knowles (1997), tud. 228-9

<sup>22</sup> Gw. hefyd *Baledi Ywain Meirion*, Tegwyn Jones (gol.) (1980); 'Awstralia: Gwlad Lawn o Drysorau', Huw Walters, yn *Cynnwrf Canrif*

ag ymfudo, ac o blaid symud i Awstralia cawn yr argyhoeddiad y byddai Duw yn cadw'r ymfudwyr yn ddiogel yn ystod y fordaith.<sup>23</sup>

Mae ffynonellau cyfoes eraill hefyd yn son am ofnau'r teithwyr cyn ac yn ystod y fordaith ac am y cyngor ac yn cynnig cyngor iddynt am sut i leddfu eu dychryn. Mewn llythyr at ei chwaer yn 1874, ysgrifennodd William Austin o Batagonia: 'O bosibl eich bod yn ofni y môr; os ydych, nid oes rhaid i chwi, y mae yn fordaith hyfryd'.<sup>24</sup> I'r bardd y Cymro Cloff yn 1873, y môr oedd 'y bwci mawr sydd ar ffordd y rhan fwyaf i ymgymeryd â'r anturiaeth; ond nid yw y daith forawl [i America] ond megys dim yn bresennol, at yr hyn oedd flynyddau yn ôl'.<sup>25</sup> Tybed a yw datganiadau fel hyn yn cynnig un eglurhad am y nifer ddirfawr o hanesion mordeithiau a ddanfonwyd i o America a lleoedd eraill i bapurau newyddion a chylchgronau yng Nghymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg? Hoffwn awgrymu mai yn ogystal ag er mwyn cysuro teulu a chyfeillion yn ôl yng Nghymru, cadw cysylltiad â hwy a rhoi cyngor iddynt, cafodd y llythyrau hyn eu hysgrifennu hefyd gyda'r bwriad o dawelu meddyliau, o brofi y gellid croesi Môr Iwerydd neu hwylio i Awstralia yn ddiogel. Dyma Daniel Griffiths o Braidwood, Illinois, eto: 'Felly cei [yn y llythyr] ychydig o'r pethau mwyaf perthynasol i ni. Yn gyntaf, y daith. Nid llawer o ymfudwyr sydd nad ydynt yn dychrynu cryn lawer wrth feddwl am groesi yr eigion mawr; ond nid yw hyn ond yn dychryn mewn dychymyg. Pan y caiff dyn ei draed ar fwrdd un o longau Liverpool, anghofia ei holl ofnau yn naturiol.'<sup>26</sup>

---

<sup>23</sup> Gw. hefyd 'Cynnhadledd: Pa Un Orau? Myned i Awstralia Neu Beidio', William Lewis, yn ei *Gardd Aberdâr* (1855)

<sup>24</sup> *Y Dydd*, Ionawr 29, 1875

<sup>25</sup> *Caban y Cymro*, tud. 20

<sup>26</sup> *Tarian y Gweithiwr*, Rhagfyr 12, 1879

Er hynny, annoeth fyddai gorliwio'r graddau y llwyddai'r newidiadau mawr yn y busnes ymfudo yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg i ddi-ddymu ofnau am y môr a'i beryglon. Yng ngeiriau Aled Eames, 'dylid cofio fod y teithwyr yn ymwybodol iawn o beryglon y fordaith, llawer ohonynt wedi clywed am drychinebau ... I ychwanegu at eu hofnau ceid ambell lun brawychus a dramatig'.<sup>27</sup> Gallai newyddion am longddrylliadau lladd yr awydd i ymfudo mewn chwinciad. Yn ôl un gohebydd ym mis Mai 1863, roedd llu o ymfudwyr o Ferthyr ymhlith y 237 a gollodd eu bywydau pan ddrylliodd y llestr *Anglo-Saxon* ger Newfoundland mis ynghynt. Cafodd y newyddion am y trychineb effaith trwm ar y dre, gan ddileu'n llwyr '*the mania for emigration that has lately raged to such an extent in this place; a solitary one is all that can be seen now*'.<sup>28</sup>

Gwelwyd eisoes bod yr elfen grefyddol yn cael ei hamlygu'r glir yn y mwyafrif o adroddiadau personol yr ymfudwyr Cymreig. Byddwn yn disgwyl hynny, o gofio pa mor ganolog oedd ffydd Gristnogol i ffordd o fyw'r mwyafrif o Gymry'r oes honno ac i'w ffordd o weld a deall y byd. I ambell i ddydd, bu'r hyn a welsant ar fwrdd llong ymfudol yn peri iddynt benderfynu ddechrau pregethu a throï at y weinidogaeth. Dyna fu profiad Y Parch William Meirion Evans, o Lanfrothen, un o'r Cymry pwysicaf a dylanwadol yn Awstralia yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac a fu'n weinidog mewn capeli'r Hen Gorff ym meysydd aur Victoria ac yn Melbourne. Hwylodd o Deptford i Adelaide yn 1849, ac yn ystod y fordaith '*his very soul was racked within him while observing the reckless wickedness around him; the screeching of the fiddles; the dancing and drinking*'.<sup>29</sup> Heb os ac oni bai, yr oedd ei ffeidd-dod at ymddygiad ei gyd-deithwyr yn ffactor allweddol a'i hysgogodd i

---

<sup>27</sup> *Y Fordaith Bell*, tud. 37-8

<sup>28</sup> *Cardiff and Merthyr Guardian*, Mai 22, 1863

<sup>29</sup> LLGC Facs 680 'Memoir of the Rev. William Meirion Evans', tud. 18

ledaenu Gair Duw. Digwyddodd yr un peth i'r Parch David Stephen Davies, 'apostol Mawr Patagonia', wrth ymfudo i America yn 1857. Daeth i ystyried llongau yn faes addawol i bregethwyr: 'lle iawn yw bwrdd llong i bregethu; mae y bobl yno yn gwyno gyda'i gilydd; mae pawb yno mewn ystyr yn gydradd, a phawb, i ryw fesur, ar dywydd ystormus, yn ofnus'.<sup>30</sup>

Mynych iawn yw'r cyfeiriadau at y llongau fel Twr Babel, ac at y gymysgedd o bobloedd o ledled Ewrop a oedd wedi dod ynghyd gyda'r unig bwrpas o groesi'r Werydd er mwyn chwilio am fywyd gwell yn y Gorllewin. Cafodd hwn effaith arwyddocaol ar syniad yr ymfudwyr Cymreig o'u hunain ac o'u hunaniaeth genedlaethol. Fel sydd yn hysbys i bawb yma heno, roedd Anghydfurfiaeth yn rym hynod nerthol yng Nghymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg nid yn unig fel credo ond hefyd fel nodwedd a oedd yn diffinio Cymreictod. Roedd y fordaith yn creu amodau a oedd yn caniatáu i ymfudwyr Cymreig gadarnhau eu hargyhoeddiad am grefyddoldeb y Cymry fel cenedl, yn enwedig o'i chymharu â chenedloedd eraill. Roedd yr un peth yn wir am ganu ar y fordaith; yn ôl rhai o'r llythyrau gellir meddwl mai Cymanfa Ganu, neu hyd yn oed 'Gwlad y Gân' ar wyneb y dŵr oedd y llong ymfudol. 'Wedi cyrraedd y llong', datganodd Edward John, Joseph Richards a William John mewn llythyr a gyhoeddwyd yn 1895, 'dyma le am glebran; sôn am Dwr Babel, dyma ail Dwr Babel yn yr *Umbria* heddyw. Yr oeddem yn gymysgedig o bob llwyth a iaith dan y nefoedd, a phawb yn clebran ... Ninau, gymaint o Gymry ag oedd ar y bwrdd, yn canu yr hen emyn hyfryd "O Fryniau Caersalem ceir gweled", nes gwefreiddio pawb.'<sup>31</sup>

---

<sup>30</sup> 'Y Parch. D. S. Davies', Evan Pan Jones, *Y Geninen*, 17:1 (1899), tud. 57

<sup>31</sup> *Industrial World*, Mai 24, 1895

Yn ogystal ag yn fodd i atgyfnerthu eu Cymreictod, y gwir oedd mai ar fwrdd llong ymfudol y bu i ymfudwyr Cymreig gyfarfod ag America am y tro cyntaf. Ar y fordaith hefyd ddechreuodd y broses o addasu i ddiwylliannau, ieithoedd a gwynebau estron newydd. Neu yng ngeiriau David Samuel:

Mewn gwirionedd mi welais i fraslun, neu miniature, o boblogaeth yr America ar y fordaith ar fwrdd y 'Majestic' wrth fynd allan - a chyn cyrraedd y wlad. Dyna yw poblogaeth yr Unol Daleithiau, ryw gymysgedd o bob cenedl dan yr haul - cenedloedd Europe ac Asia, ac Indiaid a Chineaid wedi eu pentyrru at eu gilydd. Er mwyn gweled natur poblogaeth macrocosm neu fyd mawr y Cyfandir Americanaidd, ni raid ond cymeryd golwg ar y microcosm neu y byd bychan ar fwrdd un o'r Ocean Liners.<sup>32</sup>

Nid oedd y cyffyrddiad hwn o angenrheidrwydd yn broses rhwydd i'r Cymry. Fel y noda Huw Walters, yr oedd 'gorfodi ymfudwyr Cymreig i ymgyfathrachu â Gwyddelod anhywaith ac Almaenwyr sarrug yn brofiad ysgytwol i lawer ohonynt'.<sup>33</sup> Cofnododd nifer fawr o'r hanesion mordeithiol fod eu llongau wedi glanio yn Queenstown (Cobh heddiw), fel oedd yr arfer, ac wedi codi torfeydd o Wyddelod oedd hefyd yn ymfudo i'r byd newydd yn y gorllewin. Gan amlaf ceir yn y dogfennau Cymreig hefyd cyfeiriadau at, i ddyfynnu Huw Walters eto, 'y drwgdeimlad mawr a fodolai rhwng y Gwyddelod a'u cyd-deithwyr, ac ni allai'r Cymry ddygymod o gwbl

---

<sup>32</sup> LIGC MS 2834B, tud. 5

<sup>33</sup> 'Y Gwladgarwr a'i Ohebwy', tud. 152

â “phlant Mari” neu “blant y Gors”, na’u crefydd’.<sup>34</sup> Dyma ddarn arall o lythyr James a T. Owens, a gyhoeddwyd yn 1881:

Cyrhaeddasom Queenstown boreu y Sul, Medi 26ain. Boreu hyfryd, y llestr yn hwylio yn ardderchog, a ninau y Cymry yn canu yn beraidd ddarnau cysegredig ar y bwrdd.

Dydd Llun y 27. – ... yn yr hwyr cododd yn wynt cryf nes taflu y llong yn drwsgl i fyny ac i waered. Gorfu i bawb fyned i lawr yn gynar i’w *bunks*. Yr oedd plant yr Ynys Werdd yn crochfloeddio ac yn gweddio bob yn ail ar yr ‘Holy Virgin, the mother of Jesus.’ Yr oeddynt wedi ymgynull at eu gilydd yn un pentwr, ac un o’r hen famau yn eu canol yn ceisio dweyd dipyn drostynt i gyd ... Yr oedd yr hen chwaer wedi credu ei bod ar ben arnom oll. Ond daeth un o’r frawdoliaeth i lawr oddiar y deck, a dywedodd, ‘*Leave off your noise, it is alright.*’ Torwyd y weddi i fyny yn y fan, a dywedodd yr hen fam wrtho ‘*God bless you,*’ a dechreuodd ddawnsio. Ni welais y fath genedlaeth erioed a phlant Mari ...

Medi 29. – Dyma foreu anwyl eto, pawb yn dyfod i’r deck er drachtio’r awel iach. Treuliasom y dydd fel Cymry yn agos mewn canu darnau cysegredig, a thua 8 o’r gloch yn yr hwyr, wele y Gwyddelod yn dechreu eu cyfarfod trwy ganu *comic songs, Irish songs*, dawnsio, a

---

<sup>34</sup> ‘*Y Gwladgarwr a’i Ohebwyf*’, p. 155. Gw. hefyd ‘A tolerant nation?: anti-Catholicism in nineteenth century Wales’, Paul O’Leary, yn *From Medieval to Modern Wales*, R. R. Davies a Geraint H. Jenkins, (gol.) (2004)



chadw pob rhialtwch. Ymollyngai plant yr Ynys Werdd i bob  
budreddi.<sup>35</sup>

Geiriau anghyfyreddus i ddarllen heddiw, efallai. Ond wrth gwrs roedd digon o  
Gymry eraill hefyd yn ymollwng eu hunain i bob budreddi, yn ymhyfrydu yn y  
dawnsio, yr yfed a'r rhialtwch, ac yn fwy na pharod i gyd-dynnu gyda Gwyddelod ac  
ymuno â hwy yn yr hyn oeddent yn ystyried yn sbri.

I grynhoi. Pa fath bynnag oedd helyntion yr ymfudwyr Cymreig ar fwrdd y 'carchar  
rhyfeddol', bu'r fordaith yn sicr yn garreg filltir enfawr yn eu bywydau. Cafodd eu  
taith ddylanwad pellgyrhaeddol ar eu profiadau yn eu cartrefi newydd. Nid rhywbeth  
ymylol i'w croesiad o'r hen fyd i'r byd newydd oedd y fordaith, ond yn hytrach  
dechreuad y broses o ddod i delerau ag America ac o ymgyfarwyddo â chenedloedd  
eraill yn ogystal ag atgyfnerthu eu hunanymwybyddiaeth o'u Cymreictod. I David  
Samuel, yr Iwerydd oedd 'y great separatist, yr ymwahanydd mawr. Dyma sy'n  
rhwystro ryw lu ohonom rhag myned drosodd. Mae enw hwn yn awgrymu pob math o  
ddychrynfeydd i'r fynwes - ei wyntoedd a'i donnau a'i beryglon'. Ar yr un pryd  
barnodd bod y Cymry yn America 'yn gymaint a hynny yn anwylach gennym am fod  
y môr rhyngom'.<sup>36</sup> Ar y naill law roedd y môr yn gweithredu i rwystro'r Cymry rhag  
symud i wledydd tramor, ond ar y llaw arall, roedd yn hwyluso ymfudo. Yn yr un  
modd, roedd y môr yn rhannu ac uno ein cenedl.

Yn ei rhagair i *Y Fordaith Bell* mae Aled Eames yn datgan mai '[C]ymry cyffredin  
anghyffredin' oedd yr ymfudwyr i Awstralia a ysgrifennodd y llythyrau a'r

---

<sup>35</sup> *Tarian y Gweithiwr*, Ionawr, 14 1881

<sup>36</sup> LIGC MS 2834B, tud. 5

dyddiaduron a atgynhyrchwyd yn ei gyfrol, a bod yr ysgrifenydd hynny ‘yn ein tywys ar hyd y fordaith - weithiau mewn pryder a thristwch, weithiau mewn gobaith a llawn hyder.’<sup>37</sup> Gellir dweud yr un peth am y llythyrau a drafodir yn y ddarlith hon. Dim ond cyflwyniad arwynebol ac argraffiadol i brofiadau mordeithiol ymfudwyr Cymreig y bedwaredd ganrif ar bymtheg rwyf wedi cynnig heno ond gobeithiaf fy mod wedi llwyddo i gyfleu ychydig o leiaf o hanes y Cymry anturus hyn. Gobeithiaf hefyd fod y ddarlith wedi bod yn deyrnged deilwng i gyfraniad ddau Gymro cyffredin anghyffredin arall, sef Aled Eames a Robin Evans, a wnaeth gymaint i ddod â’r perthynas hanesyddol rhwng Cymru a’r môr yn fyw, ac i sicrhau na fydd yr hanes cyfoethog a phwysig hwn yn cael ei hesgeuluso mwyach.

---

<sup>37</sup> *Y Fordaith Bell*, [tud. 7]